# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Jenkins (Yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell 59, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 9.10 - 9.20 am**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 2AIL TACHWEDD, 2016

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 2il Tachwedd, 2016 yn gofnod cywir.**

## 3. ADRODDIAD NAD YW I'W GYHOEDDI.

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

## 4. TIR YM MHENPRYS, DAFEN

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd prawf budd y cyhoedd yn y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn manylu ar drafodaethau ynghylch datblygu tir a bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth gan y byddai hynny'n gwanhau sefyllfa'r Awdurdod mewn trafodaethau ac o bosib yn arwain at wario mwy o gyllid cyhoeddus nag a fyddai'n digwydd fel arall.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion ar gyfer datblygu tir ym Mhenprys, Dafen.

Rhoddodd y Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr wybod am ddau newid i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol yr oedd yn rhaid eu dwyn i sylw'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol cyn trafod yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**4.1 Cytuno mewn egwyddor ar y cynigion ar gyfer datblygu tir sy'n eiddo i'r Cyngor ym Mhenprys, Dafen, yn amodol ar y newidiadau a nodwyd.**

**4.2 Bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Cyngor gaffael tir preifat cyfagos ym Mhenprys, Dafen.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**